Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 26 Ebrill 2016

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, A. Williams, B. Jones, D. James, H. Huws, D. Williams,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	E. Parry, Mervyn Jones, S. Edwards,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Cyfrifon Mis Ebrill 2016**		
3.1	Cytunwyd l'r Cyngor Bro edrych I wneud cais ôl dal TAW bob chwech mis gan fod symiau sylweddol dros y misoedd diwethaf.		
3.2	J. Roberts yn Cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd y cyfrifon fel y rhai cywir.		
4.0	**Materion y Cyngor Sir**		
4.1	Meirion Jones yn nodi fod yn debyg bydd y ffoaduriaid yn cyrraedd o Syria o fewn pedair I chwech wythnos		
4.2	Meirion Jones yn nodi ei fod wedi siarad gyda Dave Riley o'r Cyngor Sir, ac yn cadarnhau eu bod yn edrych I ail drefnu eu Adran ac am drio cefnogi ymgyrchon yn erbyn baw ci. G. C. Jones a H. Huws am godi'r mater yng Nghyfarfod Fforwm Cyswllt 28/04/16	**G. C. Jones a H. Huws**	
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 29 Mawrth 2016**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery yn nodi ei fod yn gobeithio cael diweddariad yn y gwanwyn.	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams -Meirion Jones wedi derbyn llun o'r un sydd yn Llangefni, angen paratoi un eithaf tebyg. Meirion am baratoi templed.	**Meirion Jones**	**31/05/16**
6.3	Llwybr beicio - H. Huws yn cadarnhau fod gwaith ar y lon wedi gwneud ond dim y llwybr beicio. CSYM am alw allan I edrych arno.	**D. Owen**	**31/05/16**
6.4	Llawr y siglenni a difrod yn y maes chwarae – Andre wedi gal war y safle ac wedi trwsio'r difrod I'r llawr y siglenni. Cytunwyd hefyd I ofyn I North Wales Fencing drwsio difrod I'r Maes Aml-Bwrpas ar frys gan fod yn achosi perygl Iechyd a Diogelwch i blant.	**A, Mummery**	**31/05/16**
6.5	Ty Stesion Pringles - Clerc wedi ysgrifennu at Pringles, dim ymateb wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Clerc i ddilyn i fyny	**D. Owen**	**31/05/16**
6.6	Grant memorials fund - Clerc wedi cysylltu gyda Chlerc Cyngor Trewalchmai, nodwyd fod sawl ffynhonnell ariannu wedi'i ddefnyddio ganddyn, yn cynnwys, Ymddiriedolaeth Ynys Môn, Cymru'n Cofio, Heritage Lottery, War Memorials Fund, CADW a hel yn lleol. Nodwyd eu bod wedi derbyn Cyngor arbenigol ar y gwaith gan Smith of Derby. Cytunwyd i ofyn i Peter Llewelyn am gyngor ar y gwaith yn gyntaf.	**A. Jones neu G. Parry**	**31/05/16**
6.7	Biniau Baw Ci - Meirion Jones i ddilyn i fyny gyda Adran Rheoli Gwastraff y Cyngor Sir. Nodwyd bod gryn dipyn o faw ci o gwmpas y pentref.	**Meirion Jones**	**31/05/16**
6.8	Offer cadw'n heini yn y Maes Chwarae - S. Edwards wedi siarad gyda B. Jones, nodi fod ffrindiau'r parc a'r gors dal yn bodoli. S. Edwards am dderbyn rhestr o grantiau ganddynt.	**S. Edwards**	**31/05/16**

6.9	Neuadd Goffa (Hwb Cymunedol) – Medrwn Môn wedi rhoi caniatâd I'r argymhellion, ac yn rhoi caniatâd I symud ymlaen. A. Mummery yn diolch I G. C. Jones ar ran y Cyngor Bro am nol eitemau I'r Neuadd Goffa o Canolfan Gwelfor, Caergybi.		
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Fynwent 05 Ebrill 2016**		
7.1	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn Codi o'r Cofnodion**		
8.1	A. Mummery yn nodi fod E. Parry yn dal I drefnu gwaith er I fod I ffwrdd gyda anaf		
8.2	G. Parry yn nodi ei fod yn gwneud archwiliad misol o'r safle		
9.0	**Cyflwr y Maes Chwarae**		
9.1	Cytunwyd I ofyn I Colin Roberts rhoi fwy o oriau I fewn I glirio sbwriel yn y Parc. Materion eraill wedi drafod ym mhwynt 6.4	**A. Mummery**	**31/05/16**
10.0	**Cynllun Iaith y Cyngor Bro**		
10.1	Nodwyd gan y Cynghorwyr Sirol fod y Cyngor Sir yn edrych ar eu polisi Iaith eu hunain ar hyn o bryd. Cytunwyd I weld beth fydd eu penderfyniad nhw cyn symud ymlaen gyda un y Cyngor Bro.	**Cynghorwyr Sirol I Adrodd yn ol.**	
11.0	**System ailgylchu dwr glaw y clwb bowlio**		
11.1	Nodwyd fod y costau wedi eu cymeradwyo ar ddechrau flwyddyn ac wedi ei rhoi ar y gyllideb. Cytunwyd i'r clwb bowlio I weithredu, gan nodi bydd y system newydd yn arbed arian I'r Cyngor Bro.	**Clerc**	**Misol**
12.0	**Cyfarfod Cyhoeddus – Gwasanaethau Llyfrgelloedd**		
12.1	Meirion Jones yn nodi fod cyfarfod cyhoeddus wedi'i drefnu ym Mhorthaethwy ar 18/05/16 yn annog cefnogaeth I'r llyfrgelloedd gan grwpiau a defnyddwyr lleol.		
13.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
13.1	Cais llawn I godi 17 annedd (12 gyda 2 ystafell wely, 4 gyda 3 ystafell wely a 1 byngalo gyda 3 ystafell wely) ynghyd a chreu mynedfa newydd I gerbydau ac I gerddwyr ar dir ger Hen Lon Dyfnia, Llanfairpwll – Y tri Cynghorwyr Sirol wedi cyfarfod a trigolion ac yn nodi bod pryderon am barcio, traffig a draenio ar y safle. Nodwyd hefyd bod pryderon am ddwysedd o ddatblygiad ar y safle ac am diogelwch y ffordd, llwybr troed a'r cyffordd. D. Williams yn nodi mai yn wreiddiol, pan ddatblygwyd yr A55, mi roedd yno buffer zone I fod rhwng y ffordd a'r pentref.	**D. Owen**	
14.0	**Gohebiaeth**		
14.1	Y comisiwn Etholiadol – llawlyfr etholiad – Derbyn y Wybodaeth		
14.2	Cyngor Sir Ynys Môn – Rhybuddion etholiadau – Derbyn y Wybodaeth		
14.3	Grid Cenedlaethol – Newyddion I'r Gymuned – Derbyn y Wybodaeth		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 31 Mai 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) ……Dyddiad **108**